

Taflen adnoddau

Uchelgais Hardd, gan Karl Nova, cyfieithiad gan Mari George**Uchelgais Hardd**

gwranda! ←

Dwi'm yn byw mewn byd dychmygol
dwi'n greadur uchelgeisiol,
fe yfais ddiod oren cry -
rysâit arbennig fy Mamgu -
diod llawn breuddwydion
i ymestyn fy ngorwelion
i lond gwlad o ddewisiadau
a'm helpu i gynllunio
ac edrych i'r dyfodol
a'r dyfodol hwnnw'n wincio
yn dweud bod modd gwneud pethau.

Gwenais
ac fe gredais
ond cofia di, fe syrthiais
sawl tro, do, wrth daro
pobl oedd yn fy rhwystro.

Edrycha ar y cyfarwyddiadau!
Mae'r bardd yn siarad
yn uniongyrchol â thi ac yn
dweud wrthynt beth i'w wneud.
Mae'n ffordd dda o ennyn
diddordeb dy ddarllenydd.

Mae'r bardd yn siarad
amdano'i hun yma.
Ei brofiad GO IAWN
ac mae'n defnyddio'r amser
GORFFENNOL. Mae hyn yn
helpu'r darllenydd i ymddiried
yn y bardd ac i wybod ei fod
yn siarad am rywbeth sydd
wedi digwydd.



Taflen adnoddau

Uchelgais Hardd, gan Karl Nova, cyfieithiad gan Mari George

Y bobl sydd ddim am lwyddo
y nhw fydd yn dy ddiawlio,
dy watwar nes dy frifo.
Ond pan fyddan nhw'n dy rwystro,
dalia i freuddwydio
dilyna lwybr clir
lle gall breuddwyd ddod yn wir,
dal dy obaith yn dy law
gweithia'n galed i weld beth ddaw

gwna ymgais
heb drais.
Coda dy lais.

Mae gen ti uchelgais.

Gan Karl Nova

Nesaf mae'n symud ymlaen
i CHDI a'r amser PRESENNOL
(nawr). Dyma ffordd dda
(dyfais) i ddod â'r darllenydd
ar yr un siwrnai â'r bardd.
Mae'n helpu'r darllenydd
i drawsnewid ei uchelgais
o FREUDDWYD i REALITI.

Ychydig mwy
o gyfarwyddiadau
(gorchmynion). Well
i ti wneud fel mae'r bardd
yn ddweud wrthat ti! Mae'r
bardd yn dweud wrthyt
ti SUT i gyflawni dy uchelgais.
Mae hefyd wedi gosod y
geiriau hyn ar wahân i'r brif
gerdd, i ddangos pa mor
bwysig ydyn nhw. Wyt ti'n
meddwl bod hyn
yn syniad da?

Trosiadau: mae yna drosiadau gwych yn y gerdd hefyd! Fedri di ei gweld nhw?

Beth am 'a'r dyfodol hwnnw'n wincio'!

Berfau: beth am ddefnyddio berfau annisgwyl gwych y gallwch chi wir eu teimlo?

Edrycha ar y rhain: 'Gwenais ac fe gredais', 'fe yfais ddiod oren cry', 'ond cofia di, fe syrthiais'. (Requires opening in the English version for 'my eyes glistened'). Gwych!